**LC1114**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

Bydd y Rheoliadau yma'n disodli Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996. Ynghyd â Rheoliadau Rhestr Gwastraffoedd (Cymru) 2005 maen nhw'n rhoi ar waith y rhestr Ewropeaidd ddiwygiedig o wastraff peryglus sydd wedi'i ymgorffori ar hyn o bryd yng Nghatalog Gwastraff Ewrop a gofynion y Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus (91/689/EEC. Maen nhw hefyd yn nodi'r gyfundrefn ar gyfer rheoli ac olrhain gwastraff peryglus.

### Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i graffu ar ddrafftiau cynharach o'r Rheoliadau. Gan hynny, mae pwyntiau a allai fod wedi bod yn destun adroddiad wedi'u datrys a does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu wedi'u mynegi i'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau ac wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Mehefin 2005**